Blaenau Ffestiniog, an area that employed many people, to be included in the Snowdonia Enterprise Zone, John Idris Jones suggested that lobbying be done for this.

Gwen Pettifor asked if there were any developments with Llanbedr airport.

John Idris Jones responded that there was; work was underway to develop a centre of excellence for unmanned drones for military and civil use. Work was also underway to develop Llanbedr as a space port as the runway was long enough. Also, future regulations would allow satellites to be launched from Llanbedr.

Idwal Williams expressed his dissatisfaction that Trawsfynydd could be seeking staff after Wylfa work had commenced, and added that both site's developments should run simultaneously.

John Idris Jones responded that the timescale showing the commencement of construction in 2024 for power generation by 2030 had to go through the Nuclear Inspectorate and that took time. A site for SMR development had to be confirmed in the next 19 months in order to follow this timescale, which was a reason for its importance. The investors would be running the new SMR development and they would be in charge of the timetable.

15. AOB

There was none.

16. Date and time of next meeting

Monday 5 June 2017 and to include a site visit before the meeting.

The Chair thanked everyone for attending and thanked the translator and minute taker.

The meeting closed at 12.48.

COFNODION 25AIN CYFARFOD GRŴP RHANDEILIAID SAFLE TRAWSFYNYDD A GYNHALIWDYD YNG NGHANOLFAN GYNADLEDDA A CHYNEFINO TRAWSFYNYDD

DYDD LLUN 5 RHAGFYR 2016

Yn bresennol	
Enw	Sefydliad
Samantha Morgan	Rhanddeiliad, Blaenau Ffestiniog
Keith O'Brien (Cadeirydd)	Cyngor Cymuned Trawsfynydd
Gareth Lloyd	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Ian Warner	Magnox
Joanne Wright	Prifysgol Bangor
Tom Ellis	Cyngor Gwynedd
Ceri Stradling	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
D Meredydd Williams	Cyngor Cymuned Maentwrog
Gwen Pettifor	Sefydliad y Merched
John Richards	Cyngor Cymuned Talsarnau
Martin Moore	Magnox
Nia Bowden Swann	Cyngor Gwynedd
Angharad Rayner	Magnox
Kevin Titley	Magnox
Richard Clarke	Asiantaeth yr Amgylchedd
Idwal Williams	Trawsnewid
Andrew McAteer	Magnox
Councillor Gareth Thomas	Cyngor Gwynedd
John Idris Jones	Ardal Fenter Eryri
Jonathan Jenkin	NDA
Michelle Humphreys	Magnox
Hefyd: Gwynfor Owen Caroline Jones	Cyfieithu Cofnodion

Ymddiheuriadau	
Enw	Sefydliad
Nick Blackburn	Y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR)
Yr Arglwydd Dafydd Ellis-Thomas AC	Aelod Cynulliad Dwyfor Meirionnydd
Richard Foxhall	Horizon Nuclear Power
Dafydd Jarrett	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Jonathan Cawley	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Cafwyd ymddiheuriadau fel y rhestrwyd yn y tabl uchod.

2. Cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2016

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir.

3. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2016

Yn y cyfarfod diwethaf gofynnwyd i Jill Callander wneud cais i gynrychiolydd o Orsaf Pŵer Maentwrog i fod yn bresennol yng nghyfarfod mis Rhagfyr. Roedd Michelle Humphreys wedi cysylltu ag Andy McAteer a oedd yn bresennol.

Gofynnodd y Cadeirydd i bob aelod o'r GRhS i gwblhau holiadur Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Chyfathrebu Magnox, a oedd wedi'i e-bostio at bob aelod. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflenni wedi'u cwblhau oedd 8 Rhagfyr.

4. Anerchiad y Cadeirydd – Keith O'Brien

Roedd y Cadeirydd yn bresennol yng Nghyfarfod Cadeiryddion Grwpiau Rhanddeiliaid Safle ar 22/23 Tachwedd, yn Llundain, lle cafodd strategaethau, a rhaglenni gofal a chynnal a chadw eu trafod. Nid oedd dim i achosi pryder ar safle Trawsfynydd.

Roedd gweithdy i randdeiliaid wedi'i gynnal yr wythnos flaenorol yng nghaffi'r llyn, a diolchodd y Cadeirydd i John Richards am fod yn bresennol ar ran y grŵp.

Roedd y Cadeirydd wedi mynychu cyfarfod economaidd gymdeithasol gyda Michelle Humphreys.

Roedd Gweithdy Rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru yn cael ei gynnal ar 6 Ionawr, yng Nghaerdydd a byddai John Richards yn bresennol i gynrychioli GRhS Trawsfynydd.

5. Adroddiad y Cyfarwyddwr Cau

Cyflwynodd Martin Moore grynodedb o'i adroddiad a oedd wedi cael ei ddsbarthu cyn y cyfarfod. Ers y cyfarfod diwethaf ym mis Mehefin, roedd llawer o'r gwaith a oedd wedi'i gynnwys yn y cynllun cau ar gyfer y safle ar ddechrau'r flwyddyn wedi cychwyn. Roedd cyflawni yn erbyn y cynllun hwn yn mynd yn dda, ac roedd peth o'r gwaith o gynllun y flwyddyn nesaf hefyd wedi'i wneud.

Roedd perfformiad diogelwch wedi parhau i wella ac roedd y safonau'n uchel. Roedd adolygiadau gan ymwelwyr annibynnol allanol â'r safle wedi bod yn bositif. Byddai safle Trawsfynydd yn parhau i ymdrechu i wella safonau ymhellach. Mae'r safle'n cael ei gyfrif fel "Safle gwerth ei weld".

Roedd Dispora, o'r Eidal wedi ymweld â'r safle'n ddiweddar i weld y gwaith amgáu. Roeddent wedi mwynhau'r ymweliad ac roeddent hefyd wedi dysgu yn ei sgil. Bu cwmnïau rhyngwladol hefyd yn ymweld yn dilyn cais gan yr ADN ac roedd y rhain hefyd yn llwyddiant; a chafodd enghreifftiau eu cynnwys yn yr adroddiad.

Roedd y gweithlu Gweithrediadau Gwastraff wedi bod yn cydweithio â REHAU, Blaenau Ffestiniog, i rannu arferion da. Roedd arolygiaeth gonfensiynol yr ONR wedi ymweld â'r safle bedwar mis yn ôl ac roedd wedi gwneud sylwadau positif ar rannu arferion da, ac roedd yn annog gwneud hyn â safleoedd eraill.

O ran lleihau peryglon sylfaenol, roedd Gwaredu Gweddillion Elfennau Tanwydd (FED) bron â chwblhau'r gwaith comisiynu anweithredol a oedd wedi'i gynllunio. Roedd disgwyl y byddai comisiynu gweithredol yn cychwyn ddiwedd Rhagfyr 2016. Roedd y gwaith wedi mynd yn dda eleni ac roedd y safle'n hyderus y byddai'n cyrraedd y garreg filltir hon.

Roedd niferoedd y gweithlu fel y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad, ac nid oedd yn cynnwys 26 o weithwyr asiantaeth, ac felly dylai'r ffigurau hynny ddarllen fel 80 o weithwyr asiantaeth. Roedd niferoedd contractwyr yn ychwanegol gyda 122 yn cael eu cyflogi; roedd y niferoedd hynny'n amrywio'n ôl y gwaith sy'n cael ei wneud ar y safle ar y pryd.

Roedd y gwaith i dyllu 21 o dyllau turio wedi cychwyn ar y safle ac roedd hynny'n golygu cynnydd ym maint y gweithlu, cynnydd o tua 50 ers Mehefin. Roedd hyn yn golygu bod y safle yng nghyfwng uchaf

lefelau staffio ar hyn o bryd. Roedd gweithwyr ychwanegol ar y safle hefyd i ddymchwel yr adeiladu gweinyddol, y storfeydd a'r gweithdai, a fyddai'n golygu newid sylweddol yn ymddangosiad y safle. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2017, a byddai hynny yn paratoi'r tir ar gyfer gwaith pellach i leihau'r uchder a gwaith arall yn ystod 2021/22.

Roedd ymarferiad milwrol mawr wedi cael ei gynnal yn yr ardal yn ddiweddar. Aeth popeth yn ôl y disgwyl; roedd yr aflonyddwch a achoswyd yn amlwg ond nid oedd yn afresymol. Roedd adborth cadlywydd y milwyr ar yr ymarferiad yn bositif ac roedd yn bleser i'r personél yn Nhrawsfynydd gael gweithio â hwy.

Nodwyd hefyd fod y 1803 o ddrymiau o'r storfeydd gweinyddol bellach yn y Cyfleuster Storio Interim (ISF), gan glirio ffrwd arall o wastraff. Mae'r ISF yn awr yn 67% llawn.

Roedd rhaglen dreial ar waith ar gyfer gwaith shifft i benderfynu a oedd angen i'r rhaglen shifftiau gweithredol fod yn un 24 awr. Roedd ymgynghori'n digwydd â'r gweithlu a'r undebau a byddai penderfyniad i gael gwared ar shifftiau'n cael ei wneud tua mis Mawrth 2017. Os byddai unrhyw newidiadau'n cael eu cyflwyno, byddai Diogelwch yn parhau am 24 awr a hefyd cysylltiadau argyfwng. Bydd y mater hwn yn destun craffu gan randdeiliaid allweddol i ystyried a fyddai'n ymarferol.

Diolchodd y Cadeirydd i Martin Moore am ei gyflwyniad ac ychwanegodd ei bod yn braf clywed bod diogelwch yn gwella a bod y cydweithio â REHAU yn bositif. Bu peth diddordeb cenedlaethol yn yr ymarferiad milwrol ac roedd yn falch o glywed nad oedd wedi achosi gormod o aflonyddwch.

Cwestiynau:

Gofynnodd **Meredydd Williams**, Cyngor Cymuned Maentwrog a fyddai cais yn cael ei wneud i adael gwastraff ymbelydrol a'r pyllau ar y safle.

Martin Moore – Mae'r rhaglen waith gyfan yn yr arfaeth i ystyried y canllaw GRR sy'n golygu bod yn rhaid i ni ystyried cyflwr terfynol y safle. Roedd cyfarfod wedi'i gynnal ar 29 Tachwedd i ystyried yr opsiynau i adael y gwastraff yn ei le neu ei symud oddi ar y safle.

Mater yn y tymor byr yw ardal y pyllau gan ei bod wedi'i hadeiladu i bara 20 mlynedd ac nid 50. Roedd cyfarpar i'w hamddiffyn rhag y tywydd wedi'i osod eleni i wella'r ased. Dywed y cynllun cyfredol fod gan Drawsfynydd cyfleuster storio ychwanegol a bod angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer. Rydym yn parhau i ymgynghori ac i weithio ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ynglŷn â defnyddio adeiladau'r pyllau fel storfa ddiogel.

Gofynnodd **Meredydd Williams**, Cyngor Cymuned Maentwrog ai'r ADN fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol.

Dywedodd **Martin Moore** y byddai'r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud trwy ymgynghori ac na ddylai'r penderfyniad fod yn syndod i neb o blith y rhanddeiliaid allweddol, gan y byddai trafodaethau'n cael eu cynnal yn ystod yr ymgynghoriad a'r broses benderfynu. Ychwanegodd y byddai modd dadwneud unrhyw beth y byddwn yn ei wneud rhwng hyn a 2029.

Gofynnodd **John Richards** – **Cyngor Cymuned Talsarnau** pa bryd fyddai'r rhaglen Gweddillion Elfennau Tanwydd (FED) yn weithredol ac am ba hyd y byddai'n para. Roedd wedi gofyn y cwestiwn hwn am y tro cyntaf ym Mehefin 2010.

Yn ei ateb dywedodd **Martin Moore** fod Magnox wedi cyflwyno rhaglenni y mae modd eu cyflawni a bod y safle'n disgwyl parhau â'r rhaglen. Roedd yn cydnabod ei bod wedi bod yn rhaglen anodd yn hanesyddol ond yn awr roedd y costau a'r rhaglen FED wedi eu pennu ac ar amser. Roedd timau ar y safle'n gweithio'n galed i gynnal y rhaglen. Daw rhaglen FED y Gogledd i ben yn 2022.

Ychwanegodd fod yr eitemau mawr fel prosiect dymchwel yr adeilad gweinyddol sydd wedi cael eu symud ymlaen o 2017 yn rhoi hyder i'r ADN a'r gweithlu.

Diolchwyd i Martin Moore am ei adroddiad.

6. Cyflwrau Terfynol Trawsfynydd wedi'u Hoptimeiddio

Cyflwynodd Ian Warner ei adroddiad ar ffurf cyflwyniad PowerPoint ar sgrin. Dyma'r diweddariad diweddaraf yn dilyn y gweithdy rhanddeiliaid yr wythnos flaenorol.

Cafwyd atgrynhoad a throsolwg o ddogfen GRR (Canllaw ar Ofynion Rhyddhau) Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylcheddol, h.y. pan fydd CNC yn fodlon ar gyflwr y safle, bydd yn cael ei drosglwyddo i'r sefydliadau nesaf fel awdurdod lleol.

Cyflwynwyd amserlen o'r gwaith o fis Tachwedd 2016 hyd y Cydsyniad Brenhinol yn haf 2019 ar y sgrin. Os byddai unrhyw broblemau'n codi yn ystod yr amserlen hon, byddai hynny'n arwain at oedi.

Cafwyd eglurhad o'r GRR, ac roedd hyn yn cynnwys 5 egwyddor sylfaenol:

- 1) Gwarchod rhag Peryglon Radiolegol
- 2) Optimeiddio: "cyn ised ag y gellir yn rhesymol ei gyflawni (ALARA), gan ystyried ffactorau economaidd a chymdeithasol
- 3) Amddiffyniad cyfatebol rhag peryglon anradiolegol
- 4) Dibyniaeth ar gamau pobl (diogelwch goddefol)
- 5) Bod yn agored a chynhwysol (ymgyngori, egluro, trywydd archwilio)

Cafodd yr egwyddorion uchod eu gweithredu trwy 14 o ofynion manwl. Bydd hyn yn gofyn am ddau fath newydd allweddol o ddogfennau, h.y. cynllun rheoli gwastraff ac achos diogelwch amgylcheddol safle cyfan (SWESC).

Mae 21 o dyllau turio newydd wedi cael eu drilio i gael gwybodaeth ychwanegol ar sut y mae'r safle'n perfformio'n awr, ac yn y dyfodol.

Mae safle Trawsfynydd wedi cael ei gynnig gan yr ADN fel un o 3 safle arwain a dysgu. Cafodd diben y treialon yn Nhrawsfynydd eu rhestru, h.y. i brofi pa mor rhwydd yw hi i weithredu'r GRR Drafft; i ddatrys unrhyw faterion a godir gan y rheolyddion cyn cyhoeddi'r GRR yn ffurfiol a chyn i'w ofynion fod yn orfodol; i gychwyn proses o ddiffinio cyflwr terfynol safle wedi'i optimeiddio ar gyfer Trawsfynydd ac i egluro os a pha bryd y bydd yn rhaid i Magnox Ltd wneud ceisiadau ffurfiol i CNC ar gyfer unrhyw warediadau arfaethedig ar y safle.

Cyflwynwyd manylion am yr hyn sydd ynghlwm wrth optimeiddio (egwyddor 2). Cafwyd crynodeb yn cymharu buddiannau ac anfanteision yr opsiynau yn erbyn ystod o ffactorau er mwyn penderfynu ar yr atebion optimwm. Roedd y pwynt allweddol yn nodi na fydd o reidrwydd yn golygu y bydd ymbelydredd yn cael ei symud o'r safle. Bydd yn rhaid i'r safle allu dangos i GRR bod popeth posibl yn cael ei wneud a bod dosau i'r cyhoedd mor isel ag sy'n rhesymol bosibl.

Cafwyd adroddiad gan Ian Warner ar y gweithdy Rhanddeiliaid a gynhaliwyd yng nghaffi'r llyn yr wythnos flaenorol; cafwyd crynodeb ac roedd pawb a oedd yn bresennol wedi cael cyfle i gyfrannu at y GRR. Roedd pecyn briffio helaeth wedi cael ei ddarparu cyn y gweithdy. Cafodd diben ac amcanion y gweithdy eu rhestru, a'r cam cyntaf oedd yr Asesiad o Opsiynau Strategol. Roedd ymgyngorwyr wedi cael eu cyflogi i helpu â'r broses hon. Opsiwn 1 oedd symud yr holl ddeunyddiau ymbelydrol o'r safle i'w gwaredu yn rhywle arall. Roedd Opsiwn 2 yn gadael peth deunyddiau ymbelydrol ar y safle mewn amrywiaeth o fesurau. Diben y gweithdy oedd rhoi prawf ar yr ateb wedi'i optimeiddio. Cafodd y ffactorau a ystyriwyd eu cyflwyno, a oedd yn cynnwys lechyd a Diogelwch i'r Cyhoedd, lechyd a Diogelwch i Weithwyr, Lleihau Peryglon a Diogelwch. Cafodd ffactorau amgylcheddol, effeithiau economaidd gymdeithasol, y baich ar genedlaethau'r dyfodol, gofynion strategol yr ADN, hyfywedd a gwerth am arian hefyd i gyd eu hystyried. Cafodd pob opsiwn ei brofi yn erbyn y ffactorau hyn.

Canlyniad y diwrnod oedd nad oedd llawer o wahaniaeth rhwng y naill opsiwn a'r llall; fodd bynnag Opsiwn 2 oedd yr un mwyaf ffafriol. Y camau nesaf fyddai cyhoeddi adroddiad ym mis Ionawr 2017 a gwneud rhagor o waith i optimeiddio Opsiwn 2. Pwysleisiwyd nad oedd hyn yn golygu rhoi'r golau gwyrdd i waredu gwastraff, dim ond i gynllunio. Bydd sylwadau'n cael eu cyflwyno i CNC ar y Cynllun Rheoli Gwastraff a'r Achos Diogelwch Amgylcheddol Safle Cyfan cychwynol ym mis Mai 2017, a byddant yn cael eu datblygu ymhellach yn 2017/18 os bydd angen, gydag ymgysylltu'n parhau â rhanddeiliaid.

Dangoswyd yr amserlen i Drawsfynydd i roi sylw i ofynion y GRR ar y sgrin, gan ddechrau yn 2016 a hyd at ryddhau'r safle o GRR ar ôl 2083. Byddai modd dadwneud unrhyw waith a wneir yn ystod yr amserlen.

Cwestiynau:

Gofynnodd **Samantha Morgan, rhanddeiliad, Blaenau Ffestiniog**, am fanylion am hyfywedd Opsiwn 3, h.y. a fyddai'n bosibl rywbryd i dwnelu'n ddwfn o dan y ddaear a gwaredu ar y safle fel sy'n digwydd yn y Ffindir.

Dywedodd **Ian Warner** y byddai ymchwiliad i'r ffordd fwyaf diogel o waredu gwastraff. Roedd y gwastraff a waredir yn Nhrawsfynydd o ran GRR yn wastraff lefel isel ac nid oedd hynny'n debyg o gwbl i waredu daearegol dwfn.

Idwal Williams, Trawsnewid – roedd y Daily Post wedi cyhoeddi adroddiad ar y bwriad i barhau â datgomisiynu, ac roedd wedi sôn y byddai adeilad y pyllau'n aros. Roedd dealltwriaeth Mr. Williams o'r bwriadau'n wahanol.

Cadarnhaodd **Ian Warner** mai'r cynllun a oedd yn cael ei ystyried oedd un i ddymchwel dau ben adeilad y pyllau, gyda'r canol yn cael ei roi mewn cyfluniad storio diogel.

Ychwanegodd **Martin Moore** nad oedd penderfyniad wedi'i wneud eto; roedd yn rhan o'r cynigion cyfredol yn unig, y bu ymgynghori arnynt, ond nad oedd penderfyniad wedi'i wneud eto. Roedd trafodaethau'n parhau gyda'r cynllunwyr o ran sut y byddai adeilad y pyllau'n edrych a byddai modd dadwneud beth bynnag rydym yn ei wneud yn awr hyd at 2029. Roedd rhan gyntaf adroddiad y Daily Post yn cyfeirio at barhad datgomisiynu ac nid y gweithdy diweddar.

Dywedodd **Jonathan Jenkin**, o'r ADN fod Strategaeth yr ADN yn datgan y byddem yn ffafrio datgomisiynu parhaus gan fod mwy o fuddiannau posibl yn sgil hynny, gan gynnwys buddiannau cost. Fodd bynnag, mae fforddiadwyedd yn ystyriaeth allweddol.

Cyfeiriodd **Meredydd Williams, Cyngor Cymuned Maentwrog** at ddogfen a gyhoeddwyd yn 2006 a dywedodd ei bod wedi bod yn destun dadl flynyddoedd yn ôl, a mynegodd bryderon ynglŷn â'r amserlen, h.y. dylid dychwelyd y safle cyn gynted â phosibl ac mor ddiogel â phosibl heb ddim toriadau. Mynegodd ei bryderon ynglŷn â'r holl ansicrwydd a gofynnodd pam nad oedd y materion hyn wedi cael eu hystyried pan oedd wnaethpwyd y cais ar gyfer storfeydd diogel adeilad yr adweithydd.

Cydnabu **Ian Warner** fod y dyddiadau wedi newid a bod disgwyliadau wedi'u codi â'r rheolyddion.

Ychwanegodd **Martin Moore** fod y cynllun cyffredinol ar gyfer gofal a chynnal a chadw a oedd wedi'i gyflwyno i'r ADN yn un y gellid ei gyflawni. Er hynny, roedd rhai ffactorau anhysbys a pheth ansicrwydd o hyd. Roedd tyllau turio wedi cael eu tyllu i gael gwell dealltwriaeth o nodweddion uniadau adeiladu'r pwll. Roedd y gwastraff lefel isel a ganfuwyd yn awr yn cael ei storio yn y Cyfleuster Storio Interim a oedd yn dal yn y ddaear 18 mis yn ôl.

Ychwanegodd **Meredydd Williams** y byddai'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn effeithio ar genedlaethau'r dyfodol ac nad oedd yn deg bod cenedlaethau'r dyfodol yn gorfod gwneud y gwaith. Pwysleisiodd **Ian Warner** eto fod yn rhaid i'r safle ymateb i'r GRR drafft a gyhoeddwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Dywedodd **Richard Clarke, Asiantaeth yr Amgylchedd** nad oedd ateb hawdd i'r dyddiadau ac na allai addo bod y dyddiadau'n rhai pendant ac wedi'u cadarnhau ond mae mwy o fanylion a mwy o eglurder ac mae hynny'n welliant.

Gofynnodd y **Cynghorydd Gareth Thomas, Cyngor Gwynedd (Penrhyndeudraeth)** a fyddai gadael unrhyw wastraff ar y safle'n agor y drysau i safleoedd eraill i storio gwastraff yn Nhrawsfynydd. Roedd o'r farn bod ystyried canfyddiadau pobl leol yn bwysig dros ben, er enghraifft, egluro'r gwahaniaeth rhwng gwastraff lefel isel ac uchel.

Cadarnhaodd **Ian Warner** nad oedd bwriad i fewnforio gwastraff o safleoedd eraill a dywedodd eto mai dim ond gwastraff o Drawsfnynydd sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd a bod canfyddiadau'r cyhoedd yn holl bwysig.

Dywedodd y **Cynghorydd Tom Ellis – Cyngor Gwynedd (Trawsfynydd)** fod gostwng yr uchder hefyd yn bwysig.

Cadarnhaodd **Ian Warner** fod y cynllun yn dal i gynnwys gostwng yr uchder a dywedodd y gallai gwastraff a gynhyrchir yn sgil y dymchwel cael ei aildefnyddio ar y safle'n unol â rheoliadau CNC.

Cyfeiriodd **Martin Moore** at asbestos ar y safle. Yn ddiweddar cafodd Trawsfynydd ei arolygu gan yr ONR a dywedwyd fod trefniadau Trawsfynydd yn gadarn, ac roedd yn braf clywed hynny. Roedd y safle bob amser yn ymwybodol o ofynion y rheolyddion ac o ganfyddiadau'r cyhoedd. Ychwanegodd fod y safle'n falch iawn o fod wedi ei ddewis ar gyfer y GRR drafft a bod yr wybodaeth gymhleth a geir ynddo wedi'i chyfleu mor eglur â phosibl yn allanol. Roedd yn poeni y byddai pobl sy'n darllen yn Daily Post yn cael syniadau gwahanol iawn o'r hyn oedd yn digwydd ar y safle.

Diolchodd Keith O'Brien i Martin Moore am fod mor agored a thrylwyr wrth ymateb.

7. Adroddiad Amgylcheddol

Cyflwynodd Angharad Rayner yr adroddiad, a oedd wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw.

Ni fu dim newidiadau i'r trwyddedau rheoleiddio amgylcheddol eleni. Bu gwelliant ar y safle eleni o ran llwybrau gwastraff nwyol, a oedd wedi'u huwchraddio a bod hynny wedi golygu llai o ollyngiadau nwyol. Hefyd, bu buddsoddiad mewn labordy amgylcheddol a system fesur newydd.

Nodwyd na fu dim digwyddiadau amgylcheddol mawr ar y safle. Roedd rhai digwyddiadau Lefel 4 wedi digwydd ond nid oeddent wedi cael dim effaith ar yr amgylchedd gan eu bod wedi digwydd cyn gadael y safle. Fodd bynnag, roedd hyn wedi golygu bod angen cyflwyno gwelliannau.

Roedd yr adran wedi cael ei hailstrwythuro eleni ac roedd gwaith cyffredinol wedi cael ei uno â'r adran ymbelydredd. O ganlyniad i hyn, roedd un swydd angen ei llenwi o hyd.

O ran monitro'r effaith ar yr amgylchedd, roedd llawer o ynni'r safle'n awr yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfarpar diogelu niwclear. Roedd gostyngiad o 45 tonnall mewn allyriadau CO2 wedi'i gyflawni am nad yw'r bloc gweinyddol bellach yn cael ei ddefnyddio.

Roedd ymdrechion mawr yn cael eu neilltuo i reoli gwastraff anymbelydrol i waredu 60 tonnall o gemegau a phaent.

Ychwanegodd Kevin Titley fod llawer llai o ddŵr ymbelydrol wedi cael ei ryddhau i'r llyn eleni oherwydd gwaith a wnaethpwyd yn y maes hwn. Roedd ymbelydredd yn y llyn yn llawer is na phan oedd yr orsaf yn cynhyrchu pŵer. Roedd lefelau'r ymbelydredd yn cael eu mesur yn fisol; roedd y lefelau yn y mwd a'r mawn ar wely'r llyn yn debyg i'r hyn ydoedd yn y gorffennol, ac felly hefyd yn y glaswellt.

Cwestiynau:

Gofynnodd **Meredydd Williams** a oedd y profion y gofynnwyd amdanynt yn y GRhS diwethaf wedi'u cynnal.

Dywedodd **Angharad Rayner** y byddai'n ymchwilio i'r mater gan nad oedd y sefyllfa'n glir. Nid oedd samplau ychwanegol o'r nant yn un o ofynion y drwydded a chawsant eu cyflwyno mewn cyfarfodydd blaenorol ond nid oeddent yn rhan o'r papurau.

Cam Gweithredu: cynnwys canlyniadau'r prawf yn adroddiad y cyfarfod nesaf.

8. Adroddiad gan y Pwyllgor Ymgynghorol ar Gynlluniau Argyfwng

Nid oedd Simon Dawson yn bresennol felly ymdriniwyd â'r eitem gan Angharad Rayner.

Bu newidiadau yn y tîm cymorth, sydd erbyn hyn yn llai. Bu newidiadau hefyd yn y tîm cynllunio canolog yn Magnox, sy'n dal ar gael i helpu ac nid yw'r newidiadau wedi gwneud gwahaniaeth i'r cymorth sydd ar gael. Roedd cyfarfod ymgynghorol argyfwng wedi'i drefnu ar gyfer mis Mawrth 2017. Roedd yr ymarferiad blynyddol wedi'i gynnal ym Mehefin. Nid oedd arolygydd safle'r ONR yn teimlo bod angen iddo fod yn bresennol ac roedd yr ymarferiad yn llwyddiant. Roedd trefniadau wrth gefn i gymryd lle Trefniadau Argyfwng ac roedd ymarferion dyddiol a oedd yn cynnwys y rhain yn cael eu cynnal ac fe'u dangoswyd i'r tîm diogelwch yr wythnos flaenorol. Yn ôl adborth y tîm roedd y trefniadau'n gadarn. Disgwylir y bydd y trefniadau newydd yn dod i rym ddiwedd Ionawr – dechrau Chwefror 2017.

Cwestiynau: Ni ofynnwyd dim cwestiynau.

9. Adroddiad gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear

Nid oedd Nick Blackburn yn bresennol i ymdrin â'r eitem; fodd bynnag, cafwyd yr adroddiad â phapurau'r cyfarfod.

10. Adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyflwynodd Paul Wright ei adroddiad.

Roedd adroddiadau misol yn cael eu paratoi ar ollyngiadau ymbelydrol ac roedd y canlyniadau i gyd wedi bod o fewn y terfynau a bennwyd. Roedd y drwydded amgylcheddol wedi cael ei diweddarau i dempled newydd ym mis Awst. Yng nghyfarfod diwethaf y GRhS, cafwyd adroddiad ar ddigwyddiad yn ymwneud â monitorau cerbydau gadael. Arweiniodd hyn at anfon dau lythyr rhybuddio at y safle.

Dywedodd Richard Clarke, Asiantaeth yr Amgylchedd, eu bod yn fodlon â'r ymateb a bod cynlluniau ansawdd wedi cael eu gweithredu ers y digwyddiad.

Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar dreial y GRR ar hyn o bryd.

Cafodd cyfarfod cyswllt chwarterol cyntaf yr ONR/Asiantaeth yr Amgylchedd ei gynnal ym mis Medi, ac roedd yn cynnwys safleoedd Trawsfynydd a Wylfa.

Gofynnwyd i'r safleoedd gwblhau holiadur nodweddion gwastraff. Edrychwyd ar dystiolaeth safle Trawsfynydd a daethpwyd i'r casgliad nad oedd dim materion arwyddocaol yn amlygu eu hunain.

Bydd arolygon misol yn cael eu cynnal rhwng hyn a Chwefror 2017.

Bydd adroddiad amgylchedd pum mlynedd Asiantaeth yr Amgylchedd wedi'i gwblhau erbyn Ebrill 2017.

Cam gweithredu: Angen slot estynedig yng nghyfarfod Mehefin i gyflwyno'r adroddiad uchod.

O ran materion rheoleiddio cyfredol, roedd gwaith y bloc gweinyddol yn bositif ac felly hefyd buddsoddiad y labordy; fodd bynnag, roedd anhawster dod o hyd i staff cymwysedig.

Ychwanegodd Richard Clarke, Asiantaeth yr Amgylchedd, ei bod yn bwysig ein bod yn parhau i wneud yr holl waith cyfathrebu gyda'n gilydd. Nid yw Asiantaeth yr Amgylchedd wedi siarad â'r cynghorau lleol, awdurdodau lleol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri eto ond rydym am ymgysylltu â chymaint o sefydliadau / pobl ag y gallwn ar y GRR drafft yn ystod Ionawr / Chwefror 2017.

Cwestiynau: Dim.

11. Adroddiad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear – Roedd adroddiadau wedi’u hamgáu yn y pecyn, a oedd yn cynnwys newyddion o safleoedd eraill yn ogystal â Thrawsfynydd. Cyflwynodd Jonathan Jenkin y diweddariad a oedd yn cynnwys 6^{ed} seremoni wobrwyo flynyddol cadwyn gyflenwi’r ADN, lle’r oedd dros 1,500 o ymwelwyr yn bresennol. Mae rhagor o fanylion ar wefan yr ADN.

Bydd y Cynllun Busnes drafft yn cael ei gyhoeddi ar 12 Rhagfyr a bydd yn destun ymgynghori tan 3 Chwefror 2017. Roedd y cynllun yn cynnwys amlinelliad o’r gwaith sydd wedi’i gynllunio am y cyfnod 2017-2020. Ar ôl cael adborth o’r ymgynghoriad, bydd y ddogfen derfynol yn cael ei chyhoeddi ym mis Ebrill 2017.

Cafodd manylion ac enghreifftiau o waith a wnaethpwyd mewn manau eraill eu cyflwyno yn yr adroddiad.

Roedd Sellafield Ltd wedi cael sylw yn rhaglen Panorama y BBC ym mis Medi, a oedd yn edrych ar ddiogelwch ar y safle, safle mwyaf yr ADN gyda’r peryglon mwyaf a mwyaf cymhleth yn y DU. Roedd yr ADN a Sellafield wedi cydweithredu’n llawn â chynhyrchwyr y rhaglen ac wedi rhoi cyfweiliadau. Fodd bynnag, roedd yr ADN yn siomedig â’r rhaglen a ddarllledwyd, ac roeddent yn teimlo ei bod yn anghytbwys, gan fod camau pwysig wedi’u cymryd yn Sellafield o ran diogelwch, yn enwedig yn y pyllau a’r seilos. Yn wir, roedd Sellafield wedi ennill nifer o wobrau am ddiogelwch gan y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau.

Cyfeiriodd Jonathan Jenkin at achos llys diweddar rhwng yr ADN ac Energy Solutions. Yn dilyn cystadleuaeth am riant gorff newydd i Magnox, cymerwyd camau cyfreithiol gan Energy Solutions i hawlio iawndal am ei gais aflwyddiannus i sicrhau contract Magnox. Dyfarnodd y llys yn erbyn yr ADN, ac roedd gwrandawliadau eraill wedi’u trefnu i benderfynu a ddylid caniatáu iawndal ac, os felly, beth fyddai’r iawndal hwnnw. Disgwylir canlyniadau pellach ym mis Awst 2017 ac roedd yr ADN yn apelio yn erbyn y dyfarniad.

Nodwyd newidiadau personél yr ADN ac roeddent yn cynnwys ymddeoliad John Clarke, y Prif Swyddog Gweithredol, tua Mehefin 2017, ac erbyn hynny disgwylid y byddai olynydd wedi’i benodi. Yn ddiweddar dyfarnwyd gwobr cyflawniad oes i Mr Clarke am ei wasanaeth i’r diwydiant niwclear. Hefyd, roedd trydydd tymor y Cadeirydd, Stephen Henwood, yn y swydd yn dod i ben ddiwedd eleni ac roedd y broses o chwilio am olynydd iddo wedi cychwyn. Roedd y Prif Swyddog Gweithredu, Peter Lutchorth, hefyd wedi gadael ar ôl derbyn swydd yn y sector preifat.

Cwestiynau:

Gofynnodd **Meredydd Williams** a oedd yr ADN wedi cadw diddordeb yn y rheilffordd.

Dywedodd **Jonathan Jenkin** fod Direct Rail Services a NDA Properties Ltd wedi cael ymholiad gan Mr Colin Dale. Byddai’n rhaid ystyried defnydd o’r safle ac Ardal Fenter Eryri yn y dyfodol.

Ail-ofynnodd **John Richards** gwestiwn yr oedd wedi’i ofyn yn y cyfarfod diwethaf, sef yr hoffai gael gwybod beth oedd yn digwydd i orsaf pŵer Maentwrog, ac a oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu cymryd y llyn drosodd, gyda RWE a First Hydro yn rhedeg yr orsaf bŵer; ac os oedd cwmni arall wedi dangos diddordeb, a fyddai modd cael gwybod pwy oedd y cwmni hwnnw.

Dywedodd **Jonathan Jenkin** nad oedd yn credu bod gan yr ADN neb mewn golwg. Roedd yr ADN yn berchen ar lawer o dir ac asedau a thir a chyfleusterau cyfagos. Mae strategaeth yr ADN yn golygu ei bod yn ofynnol i ni gynhyrchu incwm. Mae gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ddiddordeb mawr ym Maentwrog a datblygiad adweithydd modiwlaidd bychan. Ond, cyn gwneud unrhyw benderfyniad i werthu Maentwrog, byddai’r ADN yn bendant o fod eisiau ymgysylltu â’r gymuned.

Ychwanegodd **Meredydd Williams** na fyddai pobl yn hapus i weld y llyn yn cael ei breifateiddio ac y dylai fod yn adnodd cyhoeddus. Roedd atebolrwydd am y llyn halogedig ac mai cyfrifoldeb yr ADN oedd hyn.

Dywedodd **Jonathan Jenkin** nad oedd penderfyniad wedi'i wneud.

Pwysleisiodd **Idwal Williams** fod angen i'r gymuned gael gwybod am unrhyw gynlluniau ac yr hoffai weld Llywodraeth Cymru yn cymryd cyfrifoldeb am reoli'r safle, yn enwedig y llyn, a gweld mwy o arian yn dod yn ôl i'r ardal.

Dywedodd **Jonathan Jenkin** fod Llywodraeth Cymru yn rhanddeiliad pwysig yn hyn o beth ac nad oedd dim amserlenni wedi'u llunio hyd yma.

12. Diweddariad ar gynllun economaidd gymdeithasol Magnox

Cyflwynodd Michelle Humphreys fanylion am y prosiect a oedd wedi cael eu helpu o dan y cynllun.

Erbyn diwedd Tachwedd 2016, roedd 95 o geisiadau wedi'u cymeradwyo'n genedlaethol ac roedd arian ar gael o hyd yn y gronfa. Roedd 12 o geisiadau wedi'u cymeradwyo yn Nhrawsfynydd ac roeddent yn werth £30,876. Roedd y Ceisiadau Cymydog Da a gafwyd wedi'u rhestru yn yr adroddiad.

13. Diweddariad Horizon

Nid oedd Richard Foxhall yn bresennol ac felly ni thrafodwyd yr eitem hon.

14. Datblygu Safle Trawsfynydd – Sesiwn Wybodaeth

Cyflwynodd John Idris Jones, Cadeirydd Ardal Fenter Eryri wybodaeth a sleidiau PowerPoint ar ddatblygu safle Trawsfynydd yn y cyd-destun economaidd. Mae incwm cyfartalog swyddi yn ardal Dwyfor Meirionnydd tua £19k y flwyddyn, o'i gymharu â £22k yng Ngwynedd ac £28k yn y DU, sy'n amlygu ansawdd is y swyddi sydd ar gael yn ogystal â phoblogaeth sy'n heneiddio. Gwnaethpwyd astudiaethau o swyddi gwerth uwch ar gyfer yr Ardal Fenter, gyda'r canlyniadau'n argymhell defnyddio adnoddau sydd ar gael eisoes h.y. y llyn a'r gweithlu. Roedd yr astudiaethau'n cynnwys y cyd-destun ynni, gan fod trydan yn bwysig iawn ac roedd disgwyl i anghenion y DU gynyddu. Roedd Llywodraeth y DU am weld gostyngiad o 80% mewn allyriadau CO2 erbyn 2050 a allai olygu gostyngiad yn y defnydd o danwydd ffosil ar gyfer gwresogi a thrafnidiaeth gan arwain at gynhyrchu ynni amgen h.y. adnewyddadwy. Fodd bynnag, byddai angen pŵer niwclear ochr yn ochr â'r rhain.

Nid yw safle Trawsfynydd yn addas ar gyfer datblygiad tebyg i Wylfa Newydd; fodd bynnag, mae'n addas ar gyfer datblygu Adweithyddion Modiwlaidd Bychain (SMR) sy'n cynhyrchu llai na 300MW o bŵer, o'i gymharu â 1300MW Wylfa. Gellid adeiladu datblygiad o'r fath mewn tair blynedd. Mae SMR yn costio tua £1 biliwn i'w hadeiladu a gellid ad-dalu'r gost honno mewn cyfnod cymharol fyr, gan eu gwneud yn gost affeithiol. I adeiladu SMR byddai angen gweithlu o tua 800 o weithwyr a 365 ar gyfer eu gweithredu. Byddai hefyd yn creu cyfleoedd i gadwyn gyflenwi gref. Byddai SMR yn cael ei ddatblygu gyda datgomisiynu a gwaredu gwastraff mewn golwg. Dangoswyd amrywiaeth o SMRau ar y sgrin a chafwyd manylion am bob un.

Dangoswyd trosolwg technegol o SMR NuScale, un y gellid ei adeiladu ar y safle ac a fyddai'n cynhyrchu hyd at 600MW o bŵer. Cyflwynwyd amserlenni posibl ar gyfer adeiladu SMR erbyn 2030; ond byddai'n rhaid cael buddsoddwyr. Roedd cefnogaeth o'r diwydiant yn ogystal â gwleidyddion i adeiladu SMRs yn Nhrawsfynydd. Roedd diogelwch o'r pwys mwyaf ac oni bai y gellid profi eu bod yn ddiogel ni fyddai modd denu buddsoddwyr.

Cafwyd esboniad pam y mae Trawsfynydd wedi ei ddewis fel safle posibl ar gyfer SMR, h.y. mae cysylltiad â'r grid yn bodoli eisoes, mae dŵr oeri ar gael, ac mae'r seilwaith a gweithlu medrus eisoes yn yr ardal. Roedd y safle mewn perchnogaeth gyhoeddus, ac roedd y cynlluniau'n cael eu cefnogi gan gyrff cyhoeddus a sefydliadau ynni eraill. Roedd gwaith llobio'n digwydd yn awr. Roedd disgwyl y byddai sylwadau'r llywodraeth ar y mater yn cael eu cyhoeddi yn y gwanwyn. Roedd trafodaethau ar waith â datblygwyr posibl o ran dad-risgio.

Cwestiynau:

Gofynnodd **Meredydd Williams** pa bryd fyddai Ardal Fenter Eryri'n dod i ben.

Dywedodd **John Idris Jones** ei bod wedi cael ei sefydlu yn 2012 ac roedd Llywodraeth Cymru am ei gweld yn parhau tan 2017.

Gofynnodd **Meredydd Williams** a oedd y posibilrwydd o ymestyn ffiniau'r ardal wedi cael ei ystyried, er enghraifft, i gynnwys Blaenau Ffestiniog.

Dywedodd **John Idris Jones** y byddai timau'r Llywodraeth yn ystyried ardaloedd eraill y tu allan i'r ardaloedd presennol a phe byddai unrhyw fusnes yng Ngwynedd yn dymuno buddsoddi mewn ardal y tu allan i'r Ardal Fenter bresennol, byddai Cyngor Gwynedd yn hapus i drafod â hwy. O ran dymuniad y Cyng. Williams i Flaenau Ffestiniog, ardal sy'n cyflogi llawer o bobl, gael ei gynnwys yn Ardal Fenter Eryri, awgrymodd John Idris Jones y dylid lobio i gyflawni hynny.

Gofynnodd **Gwen Pettifor** a oedd unrhyw ddatblygiadau yn achos maes awyr Llanbedr.

Dywedodd **John Idris Jones** fod datblygiadau wedi bod; roedd gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu canolfan ragoriaeth ar gyfer dronau heb beilotiaid sydd â defnydd milwrol a sifil. Mae gwaith yn cael ei wneud hefyd i ddatblygu Llanbedr fel porth gofod gan fod y rhedfa'n ddigon hir. Hefyd, byddai rheoliadau'r dyfodol yn caniatáu i loerenni gael eu lansio o Lanbedr.

Mynegodd **Idwal Williams** ei anfodlonrwydd â'r ffaith y gallai Trawsfynydd fod yn chwilio am staff ar ôl i waith Wylfa gychwyn, ac ychwanegodd y dylai datblygiad y ddau safle gyd-redeg.

Yn ei ateb, dywedodd **John Idris Jones** fod yr amserlen sy'n dangos cychwyn adeiladu yn 2024 ar gyfer cynhyrchu pŵer erbyn 2030 wedi gorfod mynd trwy'r Arolygiaeth Niwclear a bod hynny'n cymryd amser. Byddai'n rhaid cadarnhau safle ar gyfer SMR yn y 19 mis nesaf er mwyn dilyn yr amserlen hon, a bod hynny'n rheswm am ei bwysigrwydd. Byddai'r buddsoddwyr yn rhedeg y datblygiad SMR newydd a hwy fyddai yng ngofal yr amserlen.

15. Unrhyw Fater Arall

Dim.

16. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Dydd Llun Mehefin 2017 a bydd yn cynnwys ymweliad â'r safle cyn y cyfarfod.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a diolchodd i'r cyfieithydd ac i Caroline Jones am gymryd y cofnodion.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.48.